**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**
**Cross Party Group for North Wales**

# Nodyn o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2018: Cynyddu Cyfraniad y Sector Preifat at Dwf yng Ngogledd Cymru

## Yn bresennol

Llŷr Gruffydd AC (yn Cadeirio), Mark Isherwood AC, cynrychiolwyr Llŷr Gruffudd AC ac Ann Jones AC a Stephen Jones (CLlLC)
Y Cynghorwyr Mark Pritchard (Wrecsam), Gareth Jones (Conwy) a Julian Thompson Hill (Sir Ddinbych)

Siaradwyr:

- Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy),
- David Jones OBE (CBI/Parth Menter Glannau Dyfrdwy)
- Yr Athro Siân Hope (Parthau Menter Eryri ac Ynys Môn)

## Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Llŷr Gruffydd AC y cyfarfod a nododd ei fod yn gobeithio y byddai cyfarfod heddiw yn helpu'r Grŵp Trawsbleidiol i fynd o nerth i nerth.

## 1. Cyflwyniad gan Ashley Rogers, Cadeirydd Cyngor Busnes a Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy

Mae aelodau'r Cyngor Busnes yn cynnwys cyrff sy'n cynrychioli busnesau. Mae'r Aelodau'n cynnwys y CBI, Ffederasiwn Busnesau Bychain, Mynegai Dosbarthiad, yr EFF, Siambrau Masnach a Fforymau Busnes Sirol. Mae hefyd aelodau unigol sy'n adlewyrchu sectorau cryfaf y rhanbarth.

Mae gan y Cyngor Busnes ffocws rhanbarthol. Nid yw'n ceisio gwneud yr hyn y mae cyrff cenedlaethol yn ei wneud. Mae wedi ei gynllunio fel corff cynrychioliadol sy'n gallu gweithio'n rhanbarthol gyda llunwyr polisïau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor Busnes wedi gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Uchelgais ac wedi ceisio datblygu cysylltiadau gyda Llywodraeth Cymru a'i wasanaethau i fusnesau wrth iddynt effeithio ar y rhanbarth.

Mae Bargen Dwf Gogledd Cymru a Growth Track 360 yn brosiectau penodol lle mae'r Cyngor Busnes wedi helpu i ddatblygu a hyrwyddo cynigion y Bwrdd Uchelgais a Grŵp Tasg Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy. Maent yn parhau i fod yn brosiectau blaenoriaeth i'r Cyngor Busnes.

Mae'r blaenoriaethau presennol hefyd yn cynnwys: -

- Datblygu Monitor Busnes Rhanbarthol a fydd yn cyflwyno data ar economi Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy (ar sail drawsffiniol)

- Adolygiad Isadeiledd Twristiaeth a fydd yn cyflwyno argymhellion ar sut i wella'r isadeiledd twristiaeth i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru i'w rhoi ar waith.

- Ymgyrchu am dollau is i fusnesau lleol ar Bont newydd y Mersey Gateway

<u>Rhagolygon ar gyfer Twf yn y Dyfodol</u>

Mae cyflymder newid yn yr amgylchedd busnes yn cyflymu ac mae'r we yn newid y ffordd rydym yn gwneud busnes. Mae twf yn y dyfodol yn debyg o ddod o: -

- Busnesau Platfform (fel e-bay, Amazon market place)
- Mabwysiadu ac addasu i dechnolegau aflonyddol e.e. argraffu 3D
- Diwydiant 4 – Digido – yn seiliedig ar well defnydd o ddata, awtomatiaeth (AI a Roboteg) a chysylltedd
- Gwasanaetholi lle mae cynhyrchion yn cael eu cysylltu â chontractau gwasanaeth i'w cynnal

Bydd Cynnig Twf Gogledd Cymru yn ceisio gwella twf economaidd y rhanbarth drwy: -

- Adeiladu ar gryfderau yn y meysydd Ynni, Gweithgynhyrchu Uwch a Thwristiaeth
- Sicrhau cyflenwad o safleoedd ac eiddo i'w datblygu
- Galluogi cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi
- Buddsoddi mewn Cyfleusterau Ymchwil a Datblygu allweddol ym Mhrifysgolion Bangor a Glyndŵr yn Wrecsam. Bydd rhain yn eistedd ochr yn ochr ag AMRI a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ar Lannau Dyfrdwy

Mae ein fframwaith bolisi ar gyfer Busnesau Cymreig yn bwysig. Mae Busnesau yn ceisio lleihau cymhlethdod rheoliadau ac osgoi amrywiadau mewn rheoliadau, trethiant a fframweithiau polisi lle bo modd rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban.

Hoffai busnesau gael system syml siop un alwad yn trafod eu holl anghenion cefnogaeth a chymorth gan y sector cyhoeddus.

Mae sicrwydd ar gyfer cynllunio yn ddefnyddiol i sicrhau fod prosiectau mewnfuddsoddiad a buddsoddiad arall yn cael eu cyflawni a'u dewis dros wledydd eraill (yn Ewrop ac ati). Mae mewnfuddsoddiad yn amgylchedd cystadleuol.

Mae cyfleoedd ar gyfer twf o ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd. Mae angen rhoi cymhellion i fusnesau newydd.

Gallai rhannu'r risg sydd ynghlwm mewn newid helpu hefyd e.e. y sector cyhoeddus yn ariannu rhywfaint o waith ffynhonnell agored ar Lagŵn Llanw Bae Colwyn. Mae nifer o asedau allweddol fel Maes Awyr Manceinion sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus ac y buddsoddir ynddynt ac a fydd yna'n cynnig gwerth gwych i'r sector cyhoeddus.

## 2. Cyflwyniad gan David Jones OBE, Cadeirydd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Prif Weithredwr Coleg Cambria a Chadeirydd Cangen CBI Gogledd Cymru

Fel Prif Swyddog Gweithredol Coleg Cambria mae David yn treulio llawer o'i amser yn siarad â busnesau. Mae'r Coleg yn gwasanaethu busnesau drwy gael pobl mewn swyddi gyda busnesau.

Yr her fwyaf sy'n wynebu'r rhanbarth yw Brexit lle mae aelodaeth yr UE yn allweddol i ffyniant mewn Amaeth a Gweithgynhyrchu.

Fel Cadeirydd CBI Gogledd Cymru, mae David yn eistedd ar Gyngor Cenedlaethol CBI Cymru. Mae cwmnïau mawr yn bwysig gan eu bod yn darparu llawer o gyflogaeth y rhanbarth, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae tuedd i gwmnïau mawr fod â mantolenni cryf ac maent yn fwyaf tebygol o fuddsoddi.

Mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn parhau am y tro. Mae'n adeiladu ar 5 mlynedd o weithrediad. Ei brosiectau allweddol yw: -

- Porth y Gogledd. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn atal llifogydd a ffyrdd i wasanaethu'r safle hwn y mae dau ddatblygwr yn berchen arno.

- AMRI. Bydd dau safle ar gyfer yr AMRI, un i gefnogi Airbus i raddau helaeth, bydd y llall ar Lannau Dyfrdwy (ar hen safle RAF Seland / DECA). Bwriad yr AMRI yw helpu cadw Airbus yn y DU.

Bwriedir rŵan creu Ardal Fenter ar gyfer Canolbwynt Gweithgynhyrchu Gogledd Ddwyrain Cymru dros ardal Sir y Fflint a Wrecsam

## 3. Cyflwyniad gan yr Athro Siân Hope (Prifysgol Bangor), Is-gadeirydd Ardal Fenter Eryri ac Aelod o Fwrdd Ardal Fenter Ynys Môn.

Mae Siân yn aelod o Ardaloedd Menter Eryri ac Ynys Môn a gwnaeth gyflwyniad ar waith y ddwy Ardal Fenter.

Y prif bryder yng Ngogledd Orllewin Cymru yw ansawdd swyddi. Mae'r is-ranbarth wedi wynebu llewyrch a llymder e.e. roedd adeiladu'r Wylfa a Thrawsfynydd, 1959 – 1964 yn gyfnod o lewyrch a ddilynwyd gan gyfnod o lymder.

Mae twristiaeth wedi ei gysylltu â swyddi tymhorol a chyflogau isel ac mae amaeth wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae Innovate UK wedi creu archwiliad o asedau gwyddoniaeth, technoleg ac arloesi. Mae hyn yn rhoi awgrym o asedau ynni cadarn yng Ngogledd Cymru a rhanbarth ehangach Gogledd Orllewin Lloegr. Mae angen i'r ddaearyddiaeth gyfun gydweithio ac adeiladu ar ei asedau ynni a'i gryfderau.

Y prif brosiectau ar gyfer Ardal Fenter Eryri yw: -

- Trawsfynydd – Adweithyddion Bach Modiwlaidd
- Ynni hydrodrydanol
- Maes Awyr Llanbedr

Y nod yn Nhrawsfynydd yw cynnal swyddi medrus sydd eisoes ar y safle yn digomisiynu'r hen orsaf drydan i alluogi ei drawsnewid yn Adweithydd Bach Modiwlaidd. Cryfderau Trawsfynydd yw: -

- Gweithwyr medrus ar y safle
- Isadeiledd y grid
- Cefnogaeth i Adweithyddion Bach Modiwlaidd ar bob haen o lywodraeth

Llywodraeth Cymru fydd yn rhoi caniatâd cynllunio i gynlluniau hyd at 350MW. Bydd angen polisïau ar Lywodraeth Cymru i drafod y broses benderfynu (ar gyfer cynllunio).

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud na fydd bellach yn ariannu cynlluniau mawr niwclear costus ar ôl Hinckley. Mae'n awyddus i gytuno ar brisiau o 55c - 60c fesul MegaWat Awr, nid y 90c a gytunwyd ar gyfer Hinckley. Bydd hyn yn effeithio ar Wylfa ac ynni'r llanw.

Bydd Adweithydd Bach Modiwlaidd (ABM) yn cael ei leoli yn Nhrawsfynydd. Mae ABM yn cael eu cynhyrchu ymlaen llaw mewn ffatri "oddi ar y safle" gyda llai o effaith adeiladu na datblygiadau mawrion fel Wylfa. Y bwriad yw iddynt gynhyrchu hyd at 300MW o drydan.

Mae sawl gwerthwr sy'n cystadlu am y safle cyfeirnod ABM yn Nhrawsfynydd: -

- Rolls Royce
- GE Hitachi
- NuScale

Gellir cynorthwyo datblygiad Trawsfynydd gan astudiaethau i leihau perygl y safle sy'n trafod: -

- Mynediad ar Ffyrdd
- Dŵr a'r amgylchedd
- Sgiliau

Cryfderau Llanbedr yw: -

- Rhedfa gymharol hir
- Gofod awyr heb ei gyfyngu yn uchel i'r awyr
- Cysylltiadau â chlwstwr awyrofod Glannau Dyfrdwy

Mae ei strwythur perchnogaeth gymhleth yn her wrth sicrhau datblygiad.

Y prif brosiectau ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw: -

- Rheoli rhai o'r risgiau sy'n deillio o'r Wylfa Newydd – e.e. dadleoliad,
- Ynni'r Llanw (Morlais)
- Y Rig Prawf / Parc Gwyddoniaeth Menai (Canolfan Ragoriaeth Niwclear Prifysgol Bangor)

Mae'r pris gosod ar gyfer ynni'r llanw yn allweddol i ddatblygiad clwstwr ynni ras y llanw ar Ynys Môn.

Mae potensial i adeiladu dyfais tyrbin ras y llanw ym Mhorthladd Caergybi (Minesto). Mae'r Ardaloedd Menter wedi eu hymroi i ddatrys problemau i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r safleoedd hyn.

## 4. Trafodaeth a Gweithredoedd

Nododd y Cynghorydd Pritchard: -

<u>Wylfa</u>

- Mae Bendithion Cymunedol Wylfa/Horizon yn lleol a dylent fynd i Gyngor Sir Ynys Môn
- Dylai Horizon fod yn dod â phob deunydd adeiladu posibl ac eitemau wedi eu cydosod yn barod i mewn ar y môr i leihau aflonyddu ar yr ynys.

Dywedodd Siân Hope fod Horizon yn cael Prif Swyddog Gweithredol newydd a bydd symud ei Bencadlys i Ynys Môn yn helpu'r cwmni i ddeall anghenion yr ynys yn well.

<u>Bargen Dwf</u>

- Mae'n rhaid cael gwaith ar y cyd i gyflawni'r fargen.
- Mae'n ymddangos fod tua £250 - £300 miliwn ar gael ar gyfer y prosiectau cywir
- Mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys busnes ac yn ceisio cael dylanwad y sector cyhoeddus o'r buddsoddiadau a wneir.

<u>Rhannu Risg a Chefnogaeth y Llywodraeth</u>

- Nid yw cynghorau mewn sefyllfa dda i rannu risg gyda phartneriaid yn y sector preifat oherwydd diffyg cyfalaf. Mae Cynghorau'n barod i ariannu rhaglenni fel Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a gwerthu asedau, yn rhannol ar gais Llywodraeth Cymru.
- Byddai polisi cyson y llywodraeth yn helpu partneriaid preifat a'r sector cyhoeddus. Mae newidiadau i FIT wedi tanseilio buddsoddiad Wrecsam yn ynni'r haul ac mae trethi busnes wedi tanseilio cyfleoedd i gynhyrchu ynni yn gymunedol.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Jones: -

- Mae angen hyrwyddo twf busnesau cynhenid lle bo cyfoeth yn fwy tebygol o gael ei gynnal yn y rhanbarth. Ni chafodd ffrwyth y diwydiannau cynhyrchu dur, glo a llechi eu cadw yn y rhanbarth.
- Bydd Conwy yn cefnogi creu swyddi o'r Fargen Dwf ond bydd hefyd yn ceisio buddion cymunedol a chadw cyfoeth ac elw yn y rhanbarth. Dylai'r egwyddor fod yn un o adeiladu'n organig o'r llawr i fyny fel gyda thwristiaeth antur.

Arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch sicrhau mewnfuddsoddiad yn y tymor byr i roi hwb o ran swyddi gydag amcan hirdymor o gadw cyfoeth yn y rhanbarth (David Jones). Ar gyfer y Fargen Dwf, mae partneriaid gyda phocedi dyfnion yn hanfodol.

Tynnodd Mark Pritchard sylw at yr angen i ddiogelu swyddi sydd eisoes yma fel gyda Moneypenny a allai adael os na allant ehangu yn Wrecsam. Does dim ots gan gwmnïau am

ffiniau ac mae'n rhaid i ni weithio gyda nhw. Bydd gwella addysg a sgiliau'n helpu gwella'r gallu i gadw cyfoeth yn yr ardal drwy gyflogau uwch.

Bydd gwella isadeiledd yn helpu dod â chwmnïau i'r rhanbarth.

Dywedodd Siân Hope ei bod yn bwysig hyrwyddo busnesau cynhenid. Dylai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymryd cyfleoedd i nodi a chefnogi cwmnïau lleol sy'n gallu tyfu. Byddai siop un alwad i fusnesau yn helpu gyda'r nod honno.

Mae gan gwmnïau mawr sy'n symud i mewn i'r ardal ran yn dal i'w chwarae gan eu bod yn cyflogi'n lleol ac yn cynnig cyfleoedd cadwyn gyflenwi digidol a pheirianneg o werth uchel (e.e. Panasonic yn Nhrawsfynydd)

Rhoddodd Mark Isherwood AC ymateb i'r cyflwyniad a'r drafodaeth: -

- Mae angen i'r Bwrdd Uchelgais ymgysylltu fwy â'r rhaglen dlodi gymunedol a bod yn fwy pendant wrth geisio mynd i'r afael â'r bwlch Gwerth Ychwanegol Gros

- Dylai'r Bwrdd Uchelgais ymgysylltu'n agosach gyda mentrau cymdeithasol a chludiant cymunedol

- Mae'r newid i'r enw o'r Bwrdd Twf i'r Bwrdd Uchelgais wedi achosi rhywfaint o ddryswch.

- Mae'r Adweithydd Bach Modiwlaidd yn ddatblygiad cadarnhaol a alluogodd yr Ardal Fenter i symud ymlaen o reoli dirywiad yn Nhrawsfynydd i edrych ar ddatblygu'r safle gyda mentrau yn y dyfodol.

- Bydd rhagor o ddirprwyo i Gymru a dylai Cefnogaeth Ffermydd anelu at gynhyrchiant bwyd cynaliadwy.

Nododd Llŷr Gruffydd ei bod yn hanfodol i wella strwythur grid y rhanbarth, yn arbennig yn sgil disgwyliadau i'r dyfodol ynghylch Cerbydau Trydan.

Roedd trafodaeth ynghylch moderneiddio amaeth a nodwyd fod Prosiect Llysfasi yn cynnig y cyfle i wneud hynny drwy arbrofi gyda ffermio manwl, cerbydau awtonomaidd ac ynni glân. Bydd Diogelu'r Amgylchedd wedi ei gynnwys o fewn ffermio yn y dyfodol.

Bydd Ardal Fenter Ynys Môn yn edrych ar helpu i ddatblygu economi amaethyddol yn y dyfodol.

**<u>Camau Gweithredu</u>**

Bydd Monitor Busnes y Cyngor Busnes yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Cynulliad

Bydd y Grŵp yn ysgrifennu at: -

- Y Bwrdd Uchelgais i bwysleisio pwysigrwydd galluogi twf cynhenid ac organig yn y rhanbarth gyda'r nod o gadw cyfoeth yng Ngogledd Cymru.

- Mae Llywodraethau'r DU a Chymru yn ceisio cyhoeddiad ynghylch Bargen Dwf Gogledd Cymru yng nghyllideb mis Tachwedd 2018 ac eglurder o ran olion traed rhanbarthol ar gyfer amaeth a thwf economaidd.

## 5. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall.